**MEMORANDWM ESBONIADOL ar gyfer**

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Iaith Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Prif Weinidog Cymru**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

23 Chwefror 2016

## Disgrifiad

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) (‘y Rheoliadau’) yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i’r 16 sefydliad a ganlyn, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') i roi Hysbysiadau Cydymffurfio i'r sefydliadau hyn mewn perthynas â'r safonau a bennwyd:

- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys
- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
- Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Prif Gwnstabl yr Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
- Yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil
- Prif Gwnstabl y Gwnstabliaeth Niwclear Sifil
- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Diben arall y Rheoliadau yw gwneud newid i Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy’n gwneud safonau yn benodol gymwys i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a awdurdodau parciau cenedlaethol.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

*<u>Rhifau yn y Rheoliadau</u>*

Mae'r Rheoliadau'n defnyddio'r wyddor Gymraeg, h.y. (a), (b), (c), (ch) ac ati. Dim ond ar un grŵp o safonau – sef safonau 25A-D – y mae hyn yn effeithio. Mae hefyd yn effeithio ar:

(1) rheoliad 2(5).
(2) nifer fach o is-baragraffau mewn safonau unigol (gweler safonau 91, 112, 125, 134, 135A, 151, 167).
(3) paragraffau 28, 35, 36, 47 a 49 o Atodlen 1, paragraff 2 o Atodlen 2, paragraffau 11 a 13 o Atodlen 3.

Mae'r arddull hon yn wahanol i'r arddull arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Fel arfer, defnyddir y wyddor Saesneg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos hwn, oherwydd natur a phwnc y Rheoliadau, defnyddiwyd y wyddor Gymraeg. Defnyddiwyd yr arddull hwn yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddryswch wrth groesgyfeirio. Defnyddiwyd yr un arddull yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (SI 2015/996) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

*Enw'r Rheoliadau*

Teitl y Rheoliadau a osodwyd yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016. Os cânt sêl bendith y Cynulliad, dyma fydd y pumed Rheoliadau Safonau'r Gymraeg i gael eu gwneud. Penderfynwyd y byddai teitl y Rheoliadau hyn yn cynnwys '(Rhif 5)' gan eu bod yn dilyn ymlaen o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 a wnaed ar 9 Chwefror 2016 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) a (Rhif 4) 2016, sydd hefyd wedi'u cyflwyno heddiw. Bwriedir gwneud yr holl Reoliadau a wneir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn un gyfres barhaus, yn yr un modd â gorchmynion cychwyn. Y farn yw y bydd hyn yn golygu bod y Rheoliadau'n haws i'w trin ac i gyfeirio atynt, yn enwedig pan fydd Hysbysiadau Cydymffurfio'n cyfeirio at Reoliadau.

*Cyrff yn Rheoliad 3 o ac yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau*

Mae Atodlen 6 i'r Rheoliadau'n rhestru'r cyrff y mae'r Comisiynydd wedi cael ei hawdurdodi i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt mewn perthynas â'r Safonau a bennwyd. Mae Adran 43 o'r Mesur yn darparu nad yw rheoliadau'n gallu gwneud safonau'n benodol gymwys i berson oni bai bod y safon yn gymwysadwy iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff a restrir naill ai wedi'u nodi yng ngholofn 1 y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur neu maent o fewn categori o bersonau a nodir yn y golofn honno, ac mae colofn 2 yn disgrifio pa safonau a allai fod yn gymwysadwy iddynt (adran 36 y Mesur).

**Y cefndir deddfwriaethol**

Caiff y Rheoliadau ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o'r Mesur. Mae adran 26 y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau drwy reoliadau. Mae adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau gwahanol ar gyfer ymddygiadau gwahanol. Mae hefyd yn eu galluogi i bennu un safon neu nifer o safonau ar gyfer ymddygiad penodol.

Cyn y gall y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i berson yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon, rhaid i'r safon honno fod yn benodol gymwys i'r person hwnnw (adran 25). Mae adran 39 yn darparu bod safon yn benodol gymwys i berson pan fydd Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw yn ymwneud â'r safon honno. Mae adran 105(5) yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i wneud y cyfryw

ddarpariaethau trosiannol, darfodol, canlyniadol ac arbed, darpariaethau cysylltiedig ac unrhyw ddarpariaethau eraill y mae Gweinidogion Cymru'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol.

Yn unol ag Adran 150(2) o'r Mesur, rhaid i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddo (h.y. y weithdrefn gadarnhaol).

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaeth y Mesur gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith.

Cam allweddol i roi effaith i'r Mesur yw pennu safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i’w gwneud yn ofynnol i bersonau gydymffurfio â'r Safonau hyn.

Mae adran 25 y Mesur yn darparu ei bod yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon a bennir gan Weinidogion Cymru, os bodlonir amodau penodol. Mae'r amodau hynny'n cynnwys y canlynol;

i. bod safon yn benodol gymwys i'r person (h.y. mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw mewn perthynas â'r safon honno);
ii. bod y Comisiynydd wedi rhoi Hysbysiad Cydymffurfio i'r person;
iii. bod yr Hysbysiad Cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon;
iv. bod yr Hysbysiad Cydymffurfio mewn grym.

Bydd y ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau yn cymryd lle'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a ddatblygwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac a oedd yn cael eu monitro gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg nes iddo gael ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2012, ac a fonitrir gan y Comisiynydd y Gymraeg ers 1 Ebrill 2012.

Diben cyntaf y Rheoliadau yw pennu safonau.

Mae safonau sy'n perthyn i'r categorïau canlynol wedi'u pennu yn y Rheoliadau:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau - bydd y rhain yn cael eu gosod mewn perthynas â hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.
- Safonau llunio polisi - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Safonau gweithredu - bydd y rhain yn delio â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau.
- Safonau cadw cofnodion - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir

gan sefydliad. Bydd y cofnodion hyn yn helpu'r Comisiynydd i sicrhau bod sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau.

Mae'r safonau wedi'u drafftio gyda'r nod o:

- wella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan sefydliadau
- cynyddu'r defnydd a wneir gan bobl o wasanaethau Cymraeg
- ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- sicrhau cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrff sydd yn yr un sectorau.

Mae rhai safonau'n dibynnu ar ei gilydd. Felly, mae'r Rheoliadau'n cynnwys tablau (yn Rhan 2 o Atodlenni 1 a 3) i ategu'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu. Mae'r tablau yn nodi pa safonau eraill y bydd angen eu gosod hefyd pan fydd safon benodol wedi'i chynnwys mewn Hysbysiad Cydymffurfio.

Ail ddiben y Rheoliadau yw awdurdodi'r Comisiynydd i roi Hysbysiadau Cydymffurfio i'r sefydliadau a restrir uchod sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safonau a nodwyd.

Ni fydd y Rheoliadau, pan fyddant yn dod i rym, yn cael effaith uniongyrchol ar sefydliadau ac ni fyddant, ar eu pennau eu hunain, yn creu hawliau i'r rheini sy'n defnyddio'r Gymraeg. Bydd hynny ond yn digwydd pan fydd yr holl amodau yn adran 25 wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn gam hanfodol yn fframwaith y Mesur, ac yn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i sefydliad gydymffurfio â'r safonau.

Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar bob sefydliad drwy Hysbysiad Cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r ystod o safonau y gellir eu gosod ar sefydliad. Nid oes raid i'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad gydymffurfio â phob safon. Efallai y bydd sefydliad yn gorfod cydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig ac nid mewn sefyllfaoedd eraill yn dibynnu ar yr hyn a nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio. Bydd yr hysbysiad cydymffurfio hefyd yn nodi erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â safon.

*Apelio*

Bydd unrhyw sefydliad yn gallu herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol, ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny ai peidio.

Yn y lle cyntaf, bydd sefydliad yn gallu herio'r Comisiynydd ei hun. Os yw am herio penderfyniad y Comisiynydd, gellir apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac yna i'r Uchel Lys.

*Sancsiynau*

Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth â'r safonau. Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod sefydliad wedi methu â

chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi. O dan y Mesur, gall camau gorfodi amrywio o lunio argymhellion neu roi cyngor i sefydliad, i orfodi cosb sifil nad yw'n fwy na £5,000.

Diben arall y Rheoliadau yw gwneud newid (gweler rheoliad 4) i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n gwneud safonau yn benodol gymwys i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a awdurdodau parciau cenedlaethol.

Mae Adran 98 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn medru dirprwyo eu swyddogaethau trwyddedu morol neu eu swyddogaethau gorfodi drwy Orchymyn. Mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo swyddogaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn unol â Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013[1].

Gan bod Gweinidogion Cymru a CNC yn agored i orfod cydymffurfio gyda safonau mewn perthynas â unrhyw weithgaredd neu wasanaeth gall hyn greu dryswch. Er mwyn eglurder i'r cyhoedd a'r sefydliadau ei hun mae'r newidiadau i Reoliadau Rhif 1 yn golygu na fydd rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio gyda unrhyw safon yn ymwneud â unrhyw weithgaredd neu wasanaeth sydd wedi ei ddirprwyo o dan Adran 98 o Ddeddf 2009.

## Risgiau peidio â gwneud deddfwriaeth

Os na chaiff y Rheoliadau arfaethedig eu gwneud, bydd y risgiau canlynol yn cael eu gwireddu:

- Bydd Cynlluniau Iaith Gymraeg a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn parhau ar gyfer y sefydliadau a restrir uchod.
- Os yw'r Cynlluniau Iaith yn parhau, ni fydd mecanwaith gorfodi ar gael os yw sefydliad yn methu â chydymffurfio â'i Gynllun.
- Ar hyn o bryd, mae Cynlluniau Iaith yn amrywio o un sefydliad i'r llall, ac mae'r ymrwymiadau mewn rhai Cynlluniau yn amhenodol. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae'r cyhoedd yn ansicr pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd hwn yn parhau os nad yw'r Rheoliadau'n cael eu gwneud. Er ei bod yn bosibl y bydd rhywfaint o amrywiaeth rhwng sefydliadau, mae'r safonau'n benodol eu natur ac felly byddant yn lleihau ansicrwydd y cyhoedd.
- Ansicrwydd ymhlith sefydliadau ynghylch eu darpariaethau Cymraeg, yn sgil y ffaith eu bod o dan yr argraff y bydd y safonau'n disodli eu Cynlluniau. Mae nifer o sefydliadau wedi dechrau paratoi ar gyfer cyflwyno'r safonau a'r drefn fonitro a gorfodi newydd.
- Dim gwelliant o ran y defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau. Byddai'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliad yn parhau i ddibynnu ar ewyllys da'r sefydliad hwnnw, heb system fonitro yn ei lle.
- Ni fydd rhan allweddol o'r Mesur yn cael ei gweithredu.
- Bydd diffyg eglurder i'r sefydliadau a'r cyhoedd os na ddiwygir Rheoliadau Rhif 1.

---

1 O.S. 2013/414 (W.50)

Ceir rhagor o wybodaeth am risgiau a manteision gweithredu'r safonau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod, ac mae'r risgiau o beidio â chyflwyno safonau wedi'u hamlinellu yn yr adran ‘Opsiwn 1: gwneud dim’ yn y manteision.

**Ymgynghori**

Rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad gyda'r sefydliadau a allai orfod cydymffurfio â'r safonau a bennwyd yn y Rheoliadau.  Gwnaeth Gweinidogion Cymru ystyried yn llawn yr argymhellion a gyflwynodd y Comisiynydd yn yr adroddiadau ar y Safonau. Mae'r adroddiadau hynny i'w cael ar wefan y Comisiynydd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio â chynnal ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd ar y Rheoliadau drafft. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau yn ail ymchwiliad y Comisiynydd wedi cael cyfle i gyfrannu at y broses o wneud y Safonau. Ymatebodd pob sefydliad i ymchwiliad safonau'r Comisiynydd; o'r rhain, mae gan bob un gynllun iaith Gymraeg a phrofiad o ddatblygu darpariaeth iaith Gymraeg. Hefyd, trafodwyd materion penodol ynghylch addasrwydd y Rheoliadau hyn gyda swyddogion sefydliadau unigol.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**Cefndir**

1. Gofynnwyd i'r sefydliadau a oedd yn rhan o ail ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') gymryd rhan mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) gan Lywodraeth Cymru. Cafodd holiadur yr Asesiad ei ddosbarthu gyda dogfennau Ymchwiliad y Comisiynydd. Cynhaliwyd yr ymchwiliad rhwng 7 Tachwedd 2014 a 9 Chwefror 2015, a gofynnwyd i'r sefydliadau gyflwyno eu hymatebion yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

2. Ymatebodd 73 o'r 119 o sefydliadau yn ail Ymchwiliad y Comisiynydd i holiadur yr AERh, sef cyfradd ymateb o 61%. Roedd y sefydliadau hynny'n cynrychioli trawstoriad da o'r wahanol sectorau, ac yn cynnwys sefydliadau gydag ystod amrywiol o ddarpariaethau Cymraeg. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth fanwl am y costau a'r manteision o weithredu'r safonau yn eu sefydliadau.

3. Ym mis Mai a dechrau Mehefin 2015, cyflwynodd y Comisiynydd ei hymateb swyddogol i'r Ymchwiliad Safonau i Lywodraeth Cymru, a hynny ar ffurf naw adroddiad o dan adran 64 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'). Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i (i) Adroddiadau Safonau'r Comisiynydd wrth benderfynu a ddylid arfer y pwerau yn Rhan 4 o'r Mesur (sy'n cynnwys y pŵer i bennu safonau), a sut i wneud hynny; a (ii) unrhyw gyngor a roddir gan y Comisiynydd yn ysgrifenedig.

**Crynodeb o’r ymatebion**

4. Mae 1 o'r 16 sefydliad (6%) a fydd yn destun i Reoliadau Rhif 5 wedi darparu data ar gost ei Gynllun Iaith Gymraeg presennol, ac amcangyfrif o’r gost o gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg. Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu oedd y sefydliad hwnnw.

**Cywirdeb a Defnyddioldeb Data a gasglwyd yn yr Ail Ymchwiliad Safonau**

5. Mae gennym bryderon am y data cyfyngedig a gafwyd gan y sefydliadau ac a yw'n addas ar gyfer llunio AERh cadarn a chywir. Gwnaeth y Comisiynydd seilio ei hail ymchwiliad ar y Rheoliadau drafft a baratowyd ar gyfer y cyrff yng nghylch 1 a oedd yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2014. Felly, roedd yr ymatebion i'r AERh hefyd yn seiliedig ar y Rheoliadau hyn. Roedd rhai sefydliadau'n gyndyn i seilio eu hymateb ar Reoliadau drafft oherwydd y posibilrwydd y gallent newid, a hefyd eu bod wedi'u paratoi'n benodol ar gyfer Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

6. I alluogi cynnal asesiad o’r gost ychwanegol o gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg, byddai’n rhaid i sefydliad ddarparu ffigwr o’r gost o gydymffurfio gyda’i Gynllun Iaith Gymraeg presennol, ac amcangyfrif o gost cydymffurfio â Safonau. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion nid oedd modd i’r sefydliad ddarparu’r ffigurau, neu roeddent ond wedi darparu un ffigwr.

7. Hyd yn oed pan ddarparwyd amcangyfrif o’r gost, neu ddim costau o gwbl, pwysleisiodd nifer o sefydliadau ei bod yn anodd iddynt ddarparu data cywir heb wybod pa rai o'r safonau drafft y byddai disgwyl iddynt gydymffurfio â nhw. Mae'n edrych yn debyg bod rhai sefydliadau wedi darparu amcangyfrif o'r costau ar gyfer cydymffurfio â phob safon. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd pob safon yn cael ei gorfodi ar un sefydliad; mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu ar hyn pan fydd yn rhoi Hysbysiadau Cydymffurfio o dan adran 45 o Fesur y Gymraeg.

8. Mae sefydliadau hefyd wedi dehongli'r cwestiynau’n wahanol. Ceir enghreifftiau o sefydliadau’n nodi y bydd eu costau’n cynyddu yn sgil cyflogi nifer o aelodau o staff ychwanegol i ddelio â’r gwaith o roi gwahanol gategorïau o safonau ar waith; a hynny pan fo’u tystiolaeth yn awgrymu y gallent gydymffurfio â’r safon gan ddefnyddio staff cyfredol sy’n medru’r Gymraeg, neu mai dim ond un person fyddai ei angen i wneud y gwaith dan sylw. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol yr amcangyfrifon a ddarparwyd gan y sefydliadau hyn.

9. Gyda hyn mewn cof, mae'r AERh hwn yn canolbwyntio ar yr effaith economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol ar sefydliadau a hefyd yn cwmpasu'r effaith ariannol cyn belled â phosibl. Os caiff y Rheoliadau sêl bendith y Cynulliad, caiff gwybodaeth bellach ei chasglu gan sefydliadau pan fydd y Comisiynydd yn rhoi Hysbysiadau Cydymffurfio a'r sefydliadau mewn sefyllfa i ddarparu costau mwy cywir. Wedyn, bydd modd cynnal asesiad llawn o'r effaith ariannol.

## Yr opsiynau

10. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn:
    - Opsiwn 1: Gwneud dim - parhau gyda'r Cynlluniau Iaith presennol fel y'u gweithredir o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
    - Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer yr 16 sefydliad a restrir uchod.

11. Mae'r dadansoddiad canlynol yn ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn.

**Costau a manteision**

12. Fel a nodwyd uchod, dim ond un o’r 16 o sefydliadau sydd wedi’u rhestru yn y Rheoliadau a ymatebodd i’r holiadur gyda data defnyddiadwy ar gostau tebygol. Ystyriwyd cynnal cylch casglu data arall, ond penderfynwyd bod y canlyniad yn debygol o fod yn debyg ac na fyddai modd casglu'r data angenrheidiol i lunio asesiad cadarn o'r goblygiadau o ran cost nes bod gwybodaeth bellach ar gael ar ba safonau fydd yn berthnasol i bob sefydliad.

13. Mae’r hyn a ganlyn felly’n asesiad ansoddol o’r costau a manteision tebygol sy’n gysylltiedig â’r Rheoliadau.

**Costau**

**Opsiwn 1: Gwneud Dim**

14. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ni fyddai angen i'r sefydliadau hyn gydymffurfio â safonau newydd ond byddai disgwyl iddynt barhau i gyflawni eu Cynlluniau Iaith presennol.

**Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y 16 sefydliad a restrir uchod.**

15. Er na phenderfynwyd eto pa safonau fydd yn berthnasol i bob sefydliad, mae'n debygol y bydd y sefydliadau'n ysgwyddo costau untro a chostau rheolaidd ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r safonau.

16. Y prif gostau rheolaidd fydd costau staffio, yn enwedig ar gyfer staff ag arbenigedd ym meysydd cyfieithu, marchnata a pholisi. Mae'n debygol y bydd angen i'r sefydliadau ehangu eu cyfleusterau cyfieithu, naill ai drwy recriwtio mwy o gyfieithwyr mewnol neu drwy anfon gwaith cyfieithu allan i ddarparwyr allanol.

17. Yn ogystal, maent yn debygol o ysgwyddo costau untro a chostau rheolaidd ar gyfer hyfforddiant. Disgwylir i'r costau hyfforddi untro fod yn gysylltiedig â gweinyddu mewnol a hyfforddiant ar weithredu'r safonau, a bydd y costau hyfforddi rheolaidd yn canolbwyntio mwy ar yr angen posibl i ddarparu mwy o hyfforddiant statudol i staff yn Gymraeg ynghyd â hyfforddiant i staff wella eu sgiliau Cymraeg,

18. Yn ogystal â'r costau cydymffurfio a ysgwyddir gan y sefydliadau, mae Comisiynydd y Gymraeg a Thribiwnlys y Gymraeg hefyd yn debygol o ysgwyddo costau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r safonau. Yn olaf, bydd proses apelio'n cael ei sefydlu. Golyga hyn y bydd sefydliad sy'n credu bod y safonau a orfodwyd arno yn afresymol neu'n anghymesur yn gallu apelio i'r Comisiynydd yn y lle cyntaf, ac wedi hynny i Dribiwnlys y

Gymraeg. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn yn wybyddus eto.

**Manteision**

**Opsiwn 1: Gwneud Dim**

19. Dyma’r opsiwn sylfaenol ac nid oes manteision ychwanegol yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn.

20. Byddai gwneud dim yn golygu bod y Cynlluniau Iaith presennol, sydd wedi bod yn eu lle ers 1993, yn parhau fel ag y maent. Byddai swyddogaeth reoleiddio’r Comisiynydd yn parhau’n debyg i swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddai’r gweithdrefnau ar gyfer cytuno ar gynlluniau a’u diwygio, sy’n llyncu llawer o adnoddau, hefyd yn parhau, ynghyd â’r drefn orfodi gyfyngedig bresennol.

**Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y 16 sefydliad a restrir uchod**

21. Diben y safonau yw gwella lefel y gwasanaeth y gall aelodau'r cyhoedd ddisgwyl ei derbyn. Yn y cam hwn (a nes bod Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi'r hysbysiadau cydymffurfio), mae ond yn bosibl amlinellu'r manteision cyffredinol a ddisgwylir.

22. Bydd y safonau'n nodi'n glir beth y mae angen i'r sefydliadau ei wneud o ran y Gymraeg, fel bod pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg. Bydd yr eglurder hwn, ar gyfer y cyhoedd a'r sefydliadau, yn helpu i sicrhau bod y safonau'n gallu cael eu gorfodi'n effeithiol ac yn arwain at gynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

23. Mae pob un o'r 16 sefydliad eisoes yn gweithredu Cynlluniau Iaith ac eisoes yn gwneud nifer o'r pethau a nodwyd yn y safonau. Mae'r safonau'n adeiladu ar y Cynlluniau ac yn rhoi gofynion mwy cadarn ar y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, ni all y Comisiynydd ond pennu safonau sy'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer pob sefydliad unigol.

24. Ar lefel ymarferol, bydd y safonau'n cyflwyno dyletswyddau penodol a gorfodadwy yn lle'r ymrwymiadau yn y Cynlluniau, sydd weithiau'n amwys.

25. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol a strategol i brif ffrydio'r Gymraeg. Bydd y 'cynnig rhagweithiol' yn allweddol i hyn, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar y sefydliad i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na disgwyl i'r unigolyn ofyn amdanynt. Bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn i wella'r gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

26. Bydd gwell trefn orfodi yn cynnig dull mwy effeithiol o ymdrin ag achosion honedig o beidio â chydymffurfio â safonau ond yn sicrhau hefyd y gellir datrys cwynion yn gynnar ac yn anffurfiol os yw hynny’n briodol.

27. Fel rhan o broses yr AERh, gofynnwyd i sefydliadau fynegi barn ar unrhyw fanteision ieithyddol, cymdeithasol neu amgylcheddol o gyflwyno safonau. Dywedodd sefydliadau y byddai'r safonau'n helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd pob dydd ac y byddent yn helpu cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i gynyddu eu defnydd o Gymraeg yn y gwaith. Hefyd, dywedodd sefydliadau y byddai sefydliad yn adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei wasanaethu yn well ac y byddai gan y cyhoedd farn well o'r sefydliad o'r herwydd. Dywedodd nifer o'r heddluoedd y byddai'r safonau'n eu helpu i ddarparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd gan nodi y gall pobl fod yn ofnus, dan straen, neu y gall fod angen help arnynt pan fyddant yn cysylltu â'r heddlu ac y gallai defnyddio eu dewis iaith alluogi'r heddlu i gyfathrebu'n well gyda phobl mewn sefyllfaoedd o'r fath. Gallai hyn, yn ei dro, gynyddu hyder y cyhoedd yn yr heddlu.

**Casgliad**

28. Mae'r ansicrwydd ynghylch pa Safonau y bydd angen i bob sefydliad gydymffurfio â hwy yn golygu nad yw'n bosibl llunio asesiad cadarn ar hyn o bryd o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau.

29. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r sefydliadau perthnasol cyn cyhoeddi'r hysbysiadau cydymffurfio terfynol. Mae ffactorau megis pa mor rhesymol a chymesur yw safonau unigol yn debygol o gael eu hystyried yn y cam hwn, ynghyd â pha safonau y bydd disgwyl i’r sefydliad gydymffurfio â nhw ac ym mha amgylchiadau. Fel rhan o'r broses hon, gallai'r sefydliadau gyflwyno asesiad o'r costau a'r manteision cymharol sy'n gysylltiedig â'r safonau. Gallai'r Comisiynydd ystyried hyn wrth benderfynu a yw'r safonau'n rhesymol ac yn gymesur. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gwblhau cyn bod yr hysbysiadau cydymffurfio terfynol yn cael eu rhoi.

**Asesiad o'r gystadleuaeth**

30. Cynhaliwyd asesiad o'r gystadleuaeth - mae'r Rheoliadau'n annhebygol o gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.

**Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb**

31. Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i gynnal. Rydym yn fodlon nag yw’r darpariaethau penodol yn y Rheoliadau drafft yn torri y dyletswyddau a roi’r ar Weinidogion Cymru.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

32. Mae'r Mesur yn darparu nifer o gyfleoedd i'r Comisiynydd ddwyn sylw Gweinidogion Cymru at addasrwydd y safonau a bennwyd yn y Rheoliadau. Er enghraifft;

- Gall y Comisiynydd gyflwyno argymhellion neu roi cyngor i Weinidogion Cymru (adran 4 o'r Mesur) a allai argymell yn uniongyrchol diwygio'r Rheoliadau, os yw'n dymuno gwneud hynny. Hefyd gallai Gweinidogion Cymru benderfynu ar sail cyngor a roddir ganddi y byddai'n briodol adolygu'r safonau. Rhaid iddynt roi sylw dyledus i unrhyw argymhellion neu gyngor ysgrifenedig y mae'r Comisiynydd yn eu rhoi wrth arfer y swyddogaeth y mae'r argymhelliad neu'r cyngor yn ymwneud â hi.
- Mae adran 18 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad blynyddol. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gynnwys adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg (ymhlith materion eraill) a gallai hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol eu cynnwys.
- Yn ogystal, mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal Ymchwiliad Safonau (adrannau 61 a 62 o'r Mesur) a all ystyried pa safonau a ddylai, neu a ddylai barhau i fod yn benodol gymwys i berson, p'un a yw'r safonau eisoes wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru ai peidio. Ar ôl cynnal Ymchwiliad Safonau, rhaid i'r Comisiynydd lunio Adroddiad Safonau a darparu copi ohono i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i adroddiad o’r fath yn unol ag adran 66 o’r Mesur.

33. Yn amodol ar eu Hysbysiadau Cydymffurfio, bydd sefydliadau'n cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol bob blwyddyn sy'n amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r safonau a osodwyd arnynt (gweler safonau 155, 161 ac 167). Gallai'r adroddiadau blynyddol hyn hefyd godi materion yn ymwneud ag addasrwydd y safonau a bennwyd.